

Cronfa Bensiwn Gwynedd

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2022/23

ADRODDIAD NARATIF

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon a nodiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2022/23 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 5 i 43.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys Cyfrif a Datganiad Asedau Net Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau ynghlwm yn crynhoi trafodion ariannol ac asedau net ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau taladwy eraill ar gyfer cyn-weithwyr holl gyflogwyr y Gronfa, gan gynnwys Cyngorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, amryw o gyngorau tref a chymuned, cyrff ar yr atodlen a chyrrff a ganiateir.

Mae Datganiad o'r Cyfrifon a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd sef www.cronfabensiwnwynedd.cymru.

Mae gan y Gronfa ddau ddatganiad pwysig sydd yn gosod allan strategaethau er mwyn sicrhau bod y pensiynau wedi cael eu cyllido nawr ac yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Datganiad Strategaeth Gyllido – mae'r datganiad yn gosod allan strategaeth penodol i'r gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd orau wrth symud ymlaen. Caiff ei adolygu bob tair mlynedd yn dilyn y prisiad actiwaraid ac mae'n cynnwys cyfraddau unigol i bob cyflogwr ar gyfer y cyfnod dilynol.
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi – mae'r datganiad yn gosod y math o fuddsoddiadau a therfynau llydan ar gyfer bob math o buddsoddiad.

Mae'r ddau ddatganiad yma ar gael ar safle we y Gronfa o dan yr adran buddsoddiadau.

Mae'n ofynnol i gael Prisiad Actiwaraid bob tair mlynedd er mwyn sefydlu'r lefel asedau ar gael er mwyn talu pensiynau nawr ac yn y dyfodol. Y prisiad diweddaraf yw fel ar 31 Mawrth 2022 a gwneir unrhyw newidiadau i gyfraniadau y cyflogwyr o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Delyth Jones-Thomas
Rheolwr Buddsoddi
01286 679128

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae yn rhan o bolisi'r Gronfa i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Gronfa. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Gronfa Bensiwn ar yr adeg briodol.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (yn effeithiol yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

27ain Tachwedd 2023

Y Cyngorydd Stephen Churchman

Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau

CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiâu cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus; ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2023, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dewi Morgan CPFA
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

16eg Tachwedd 2023

CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

CYFRIF Y GRONFA

31 Mawrth 2022 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2023 £'000
	Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa		
82,971	Cyfraniadau	7	89,762
4	Incwm arall	8	4
2,664	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill	9	6,773
85,639			96,539
(66,979)	Buddion	10	(72,108)
(3,683)	Taliadau i ac oherwydd ymadawyr	11	(3,121)
(70,662)			(75,229)
14,977	Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net yn sgil ymwneud ag aelodau		21,310
(16,525)	Costau Rheoli	12	(12,729)
(1,548)	Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net gan gynnwys costau rheoli'r gronfa		8,581
	Enillion ar fuddsoddiadau		
26,170	Incwm Buddsoddi	13	30,940
223,010	Elw a cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	14	(53,153)
249,180	Enillion net ar fuddsoddiadau		(22,213)
247,632	Cynnydd/ (Lleihad) yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn		(13,632)
2,528,129	Asedau net agoriadol y gronfa		2,775,761
2,775,761	Asedau net terfynol y gronfa		2,762,129

Mae'r nodiadau ar tudalennau 7 i 43 yn rhan o'r Datganiadau Cyllidol

DATGANIAD ASED AU NET

31 Mawrth 2022 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2023 £'000
2,761,271	Asedau buddsoddi	14	2,742,933
303	Adneuon arian parod	14	963
(285)	Ymrwymadau buddsoddi	14	(960)
2,761,289	Cyfanswm buddsoddiadau net		2,742,936
17,828	Asedau cyfredol	20	22,454
(3,356)	Ymrwymadau cyfredol	21	(3,261)
2,775,761	Asedau net y gronfa ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd		2,762,129

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhresiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2022) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd ag ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 19.

NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd.

a) Cyffredinol

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

b) Aelodaeth

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gyntdeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrrff a ganiateir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

Cyrff ar yr Atodlen	
Cyngor Gwynedd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Elan
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GwE	Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Cymru
Cyrff a Benderfynir	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinnel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyngor Tref Llanfairfechan	Cyngor Tref Llanrwst (ymuno 26/09/2022)
Cyrff a Ganiateir	
Addysg Oedolion Cymru	Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Adferiad Recovery	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin
Cwmni'r Frân Wen	Mantell Gwynedd
Menter Môn	Medrwn Môn
Ynysmaengwyn	
Cyrff Cymunedol a Ganiateir	
Cartrefi Conwy	Adra
Byw'n Iach	
Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir	
ABM Catering	A E & A T Lewis
Kingdom Services Group	Chartwells

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Nodir manylion aelodaeth isod:

	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023
Nifer y cyflogwyr	46	47
Nifer y gweithwyr yn y cynllun		
Cyngor Sir	14,691	15,246
Cyflogwyr eraill	3,966	4,058
Cyfanswm	18,657	19,304
Nifer y pensiynwyr		
Cyngor Sir	9,281	9,647
Cyflogwyr eraill	2,017	2,133
Cyfanswm	11,298	11,780
Pensiynwyr gohiriedig		
Cyngor Sir	10,512	11,019
Cyflogwyr eraill	2,028	2,141
Cyfanswm	12,540	13,160
Buddion heb eu hawlio		
Cyngor Sir	2,142	2,595
Cyflogwyr eraill	283	378
Cyfanswm	2,425	2,973
Ymadawyr heb benderfynu		
Cyngor Sir	5,455	4,480
Cyflogwyr eraill	737	513
Cyfanswm	6,192	4,993
Cyfanswm yr aelodau yn y cynllun pensiwn	51,112	52,210

c) Cyllid

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac roeddent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau actiwaraid a gynhelir pob tair blynedd. Roedd y prisiad perthnasol ar gyfer y flwyddyn yma ar 31 Mawrth 2019. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 7.7% i 36.1% o dâl pensiynadwy.

NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

d) Buddion

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
Lwmp swm	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

O 1 Ebrill 2014, daeth y Gronfa yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbriso (CARE)
Lwmp Swm	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronodig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynauanabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2023. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae paragraff 3.3.1.2 o'r Cod yn gofyn i unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadau eto gael ei ddatgan. Nid oes safonau cyfrifyddu o'r fath wedi'u nodi ar gyfer 2022/23.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, na gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol ar sail groniadol fel a ganlyn:

- Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn cael eu gosod yn unol â rheoliadau CPLIL, gan ddefnyddio cyfraddau canrannol cyffredin ar gyfer pob cynllun sy'n codi yn ôl tâl pensiynadwy.
- Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu gosod ar y gyfradd ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari y Gronfa, neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae trosglwyddiadau i mewn ac allan yn ymwneud ag aelodau sydd wedi ymuno neu adael y gronfa.

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn/ allan yn cael eu cyfrifo pan gânt eu derbyn neu eu talu. Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 9).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

c) Incwm buddsoddi

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol ar dyddiad caffael neu fan cychwyn.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cynddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farnach fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau

d) Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol, ar yr amod bod y taliad wedi'i gymeradwyo.

e) Costau rheoli

Mae'r gronfa'n datgelu ei chost rheoli yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses (2016)*, fel y dangosir isod. Codir pob eitem o wariant ar y gronfa ar sail gronol fel a ganlyn:

Costau gweinyddol

Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiwnau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Mae ad-daliadau'r Cyngor am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill hefyd yn cael eu cyfrif fel costau gweinyddol y gronfa.

Costau arolygu a llywodraethu

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â goruchwyllo a llywodraethu yn cael eu nodi ar wahân, eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn a'u codi fel costau i'r gronfa.

Costau rheoli buddsoddiadau

Codir ffioedd buddsoddi yn uniongyrchol ar y gronfa fel rhan o gostau rheoli ac ni chânt eu cynnwys yn yr enillion a adroddwyd ar fuddsoddiadau, na'u netio oddi wrthynt. Pan fydd ffioedd yn cael eu netio oddi ar enillion gan reolwyr buddsoddi, mae'r costau hyn yn cael eu grosio i fyny i gynyddu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau sydd o dan eu rheolaeth ac felly'n cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Mae costau trafodion yn ymwneud a prynu a gwerthu asedau'r cronfeydd ac yn cael eu egluro yn y nodiadau i'r cyfrifon.

f) Treth

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Datganiad asedau net

g) Asedau ariannol

Mae'r holl asedau buddsoddi wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. Cydnabyddir unrhyw enillion neu gollodion ar werthiannau buddsoddi sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ased yng nghyfrif y gronfa.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu ar werth teg yn unol â gofyniad y Cod ac SAARh 13 (gweler nodyn 14). Ar gyfer ddibenion datgelu lefelau hierarchaeth gwerth teg, mae'r gronfa wedi mabwysiadu'r canllawiau dosbarthu a argymhellir yn y Canllawiau Ymarferol ar Ddatgeliadau Buddsoddi (PRAG/ Investment Association, 2016).

h) Trafodion arian tramor

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

i) Arian a chywerthoedd arian

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuo'n ar alw ac mae'n cynnwys symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa. Mae'r holl falansau arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

j) Ymrwymadau ariannol

Cydnabyddir ymrwymiad ariannol yn y datganiad ased net ar y dyddiad y daw'r gronfa yn gyfreithiol gyfrifol am yr ymrwymiad hwnnw. Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol sy'n ymwneud â masnachu buddsoddiadau ar werth teg ac mae unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad rhwng dyddiad y contract, dyddiad diwedd y flwyddyn a'r dyddiad setliad yny pen draw yn cael eu cydnabod yng nghyfrif y gronfa fel rhan o'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ymrwymadau ariannol eraill sy'n cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio yn cael eu cario yn y datganiad asedau net ar werth y brifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae unrhyw log sy'n ddyledus ond heb ei dalu eto yn cael ei gyfrif ar sail cronïadau ac mae'n cael ei gynnwys mewn costau gweinyddol.

k) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo

Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir o dan y Cod, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 19).

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, Utmost Life a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag Adran 4(1)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ond fe'u datgelir er gwybodaeth yn unig yn Nodyn 22.

m) Asedau dibynnol ac ymrwymadau dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd gan arwain at ased posibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae ymrwymiad dibynnol yncodi pan fydd digwyddiad cyn diwedd y flwyddyn wedi creu rhwymedigaeth ariannol bosibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Gall ymrwymadau dibynnol godi hefyd pan nad yw'n bosib ar y Fantolen fesur gwerth y rhwymedigaeth ariannol yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir asedau ac ymrwymadau dibynnol yn y datganiad asedau net ond fe'u datgelir trwy naratif yn y nodiadau.

NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISIAU CYFRIFO

Buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd heb eu dyfynnu

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac isadeiledd gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2023 yn £234.2 miliwn (£226.1 miliwn ar 31 Mawrth 2022).

Ymrwymadau'r gronfa pensiwn

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa pensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCC19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i’r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy’n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a disgwyliaid yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai’r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i’r rhagdybiaethau a’r amcangyfrifon.

Mae’r eitemau yn y datganiad asedau net ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw’r gwir ganlyniadau’n wahanol i’r rhagdybiaethau
Gwerth cyfredol actiwaraid y buddion ymddeol a sydd wedi’u haddo (Nodyn 19)	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau’n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy’n ymwneud â’r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, codiadau cyflog, newidiadau mewn oedranau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac enillion ar asedau’r gronfa. Cyflogir Hymans Robertson i roi cyngor arbenigol i’r gronfa am y rhagdybiaethau i’w defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar ymrwymadau pensiynau net. Fodd bynnag, mae’r rhagdybiaethau’n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth.
Ecwiti preifat ac isadeiledd	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei bennu’n unol âg arweiniad y <i>British Venture Capital Association</i> (Rhagfyr 2018). Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru’n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â’r prisiad.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn y datganiadau ariannol yn £234.2 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi’i nodi’n rhy isel neu’n rhy uchel yn y cyfrifon.

NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl diwedd y flwyddyn i’w adrodd.

NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

Yn ôl categori

2021/22		2022/23
£'000		£'000
19,703	Cyfraniadau gweithwyr	21,519
	Cyfraniadau cyflogwyr :	
63,233	• Cyfraniadau arferol	68,243
35	• Cyfraniadau adfer diffyg	0
63,268	Cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr	68,243
82,971	Cyfanswm cyfraniadau derbyniadwy	89,762

Yn ôl math o gyflogwr

2021/22		2022/23
£'000		£'000
27,650	Cyngor Gwynedd	29,489
50,205	Cyrff eraill ar yr atodlen	54,733
1,716	Cyrff a ganiateir	1,901
2,892	Cyrff cymunedol a ganiateir	3,087
161	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	154
313	Cyrff a benderfynir	398
34	Cronfeydd gaeedig*	0
82,971		89,762

*Cronfeydd gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Ganolfan Cyngori Ynys Môn a Chanolfan Cyngori Conwy yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfeydd gaeedig.

NODYN 8 – INCWM ARALL

2021/22		2022/23
£'000		£'000
2	Llog ar gyfraniadau gohiriedig	2
2	Incwm ar gyfrifo ysgariad	2
4		4

NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2021/22		2022/23
£'000		£'000
2,664	Trosglwyddiadau unigol	6,773
2,664		6,773

NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

Yn ôl categori

2021/22		2022/23
£'000		£'000
52,087	Pensiynau	56,010
13,123	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	13,789
1,769	Buddion marwolaeth – lwmp swm	2,309
66,979		72,108

Yn ôl math o gyflogwr

2021/22		2022/23
£'000		£'000
20,183	Cyngor Gwynedd	21,934
31,868	Cyrff eraill ar yr atodlen	34,788
1,651	Cyrff a ganiateir	1,384
1,217	Cyrff cymunedol a ganiateir	1,365
104	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	59
109	Cyrff a benderfynir	273
11,847	Cronfeydd gaeedig	12,305
66,979		72,108

NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY’N YMADAEL

2021/22		2022/23
£'000		£'000
138	Ad-daliadau i aelodau sy’n ymadael â’r gwasanaeth	172
3,545	Trosglwyddiadau unigol	2,949
3,683		3,121

NODYN 12 – COSTAU RHEOLI

2021/22		2022/23
£'000		£'000
14,788	Costau rheoli buddsoddiadau	10,593
1,373	Costau gweinyddol	1,588
364	Costau arolygaeth a llywodraethu	548
16,525		12,729

NODYN 12a- COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

2022/23	Ffioedd rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
Cronfeydd cyfun			
Incwm sefydlog	332	0	332
Ecwiti	2,001	551	2,552
Buddsoddiadau eraill			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,974	0	1,974
Ecwiti preifat	2,062	0	2,062
Isadeiledd	3,401	0	3,401
	9,770	551	10,321
Ffioedd gwarchodaeth			272
Cyfanswm			10,593

2021/22	Ffioedd rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
Cronfeydd cyfun			
Incwm sefydlog	297	0	297
Ecwiti	2,420	693	3,113
Buddsoddiadau eraill			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,744	0	1,744
Ecwiti preifat	6,445	0	6,445
Isadeiledd	2,937	0	2,937
	13,843	693	14,536
Ffioedd gwarchodaeth			252
Cyfanswm			14,788

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiad a grëwyd yn uniongyrchol gan y Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno. Ni thalwyd unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr buddsoddi. Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau yn Nodyn 14a.

Mae cronfeydd PPC Global Opportunities, Multi Asset Credit, Absolute Return Bond a Emerging Markets yn fuddsoddiadau a benodir drwy ddull rheolwr o reolwyr sydd â'u ffioedd sylfaenol eu hunain. Mae'r adenillion ar gyfer y mandad hwn yn net o'r ffioedd rheolwr sylfaenol a adlewyrchir yn Nodyn 14a o fewn y 'Newid mewn Gwerth Marchnad'. Er mwyn tryloywder, y ffioedd yn 2022/23 oedd £2,366,210 (£1,881,000 yn 2021/22).

NODYN 12b- COSTAU GWEINYDDOL

2021/22		2022/23
£'000		£'000
652	Costau staff uniongyrchol	686
344	Costau uniongyrchol eraill	449
377	Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG	453
1,373		1,588

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety.

NODYN 12c- COSTAU AROLYGU A LLYWODRAETHU

2021/22		2022/23
£'000		£'000
117	Ffioedd actiwari	234
49	Ffioedd ymgynghorwyr buddsoddi	72
9	Gwasanaeth monitro perfformiad	11
36	Ffioedd archwilwyr allanol	40
18	Pwyllgor Pensiwnau a Bwrdd Pensiwn Lleol	33
135	Partneriaeth Pensiwn Cymru	158
364		548

NODYN 12ch- PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Mae'r Costau Rheoli Buddsoddiadau yn Nodyn 12a yn cynnwys ffioedd sy'n daladwy i Link Fund Solutions (gweithredwr y PPC) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwyr buddsoddi (sydd hefyd yn cynnwys ffi'r gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd gwarchodaeth. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran ganrannol pob cronfa o asedau cyfun PPC ac fe'u didynnir o'r NAV.

Y costau goruchwylio a llywodraethu yn Nodyn 12c yw costau rhedeg blynyddol y pŵl sy'n cynnwys costau'r awdurdod lletya a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r ffioedd canlynol wedi'u cynnwys yn Nodyn 12 mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a ceir rhagor o wybodaeth am y PPC ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol.

	2021/22	2022/23
	£'000	£'000
Costau rheoli buddsoddiadau		
Ffioedd rheolwyr	2,286	2,268
Costau trafodion	693	551
Costau gwarchodaeth	227	247
	3,206	3,066
Costau arolygu a llywodraethu		
Costau rhedeg	135	158
Cyfanswm	3,341	3,224

NODYN 13 – INCWM BUDDSODDI

2021/22		2022/23
£'000		£'000
4,430	Incwm sefydlog	6,581
12,141	Ecwiti	13,109
2,090	Ecwiti preifat	470
280	Isadeiledd	2,712
7,213	Buddsoddiadau eiddo cyfun	7,817
16	Llog ar adneuron arian parod	251
26,170	Cyfanswm cyn trethi	30,940

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r trafodion cyfnewid a chostau perthnasol.

NODYN 14 – BUDDSODDIADAU

31 Mawrth		31 Mawrth
2022		2023
£'000		
Asedau buddsoddi		
Cronfeydd cyfun		
551,777	Incwm sefydlog	586,703
1,730,845	Ecwiti	1,700,745
Buddsoddiadau eraill		
252,521	Buddsoddiadau eiddo cyfun	221,297
158,711	Ecwiti preifat	166,622
67,417	Isadeiledd	67,566
2,761,271		2,742,933
303	Adneuron arian parod	963
2,761,574	Cyfanswm asedau buddsoddi	2,743,896
Ymrwymadau buddsoddi		
(285)	Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(960)
(285)	Cyfanswm ymrwymadau buddsoddi	(960)
2,761,289	Asedau buddsoddi net	2,742,936

NODYN 14a – CYSONI SYMUDIADAU MEWN BUDDSODDIADAU A DEILLIADAU

2022/23	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2022 £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn £'000	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2023 £'000
Buddsoddiadau cyfun	2,282,622	59,691	(25,000)	(29,865)	2,287,448
Buddsoddiadau eiddo cyfun	252,521	18,715	0	(49,939)	221,297
Ecwiti preifat / Isadeiledd	226,128	25,540	(35,240)	17,760	234,188
	2,761,271	103,946	(60,240)	(62,044)	2,742,933
Adneuon arian parod	303				963
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(285)				(960)
Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno				8,891	
Asedau buddsoddi net	2,761,289			(53,153)	2,742,936

2021/22	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2021 £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn £'000	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2022 £'000
Buddsoddiadau cyfun	2,108,945	151,612	(116,647)	138,712	2,282,622
Buddsoddiadau eiddo cyfun	194,581	19,038	0	38,902	252,521
Ecwiti preifat / Isadeiledd	211,643	38,945	(56,756)	32,296	226,128
	2,515,169	209,595	(173,403)	209,910	2,761,271
Adneuon arian parod	146				303
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(126)				(285)
Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno				13,100	
Asedau buddsoddi net	2,515,189			223,010	2,761,289

NODYN I4b – DADANSODDIAD O FUDDSODDIADAU

Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2022			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2023		
£'000	%		£'000	%	
1,496,425	54.2	Partneriaeth Pensiwn Cymru	1,501,286	54.8	
851,675	30.9	BlackRock	842,157	30.7	
226,128	8.2	Grŵp Partners	234,188	8.5	
75,739	2.7	UBS	74,865	2.7	
72,139	2.6	Lothbury	57,297	2.1	
39,450	1.4	Threadneedle	34,103	1.2	
18	0.0	Veritas	0	0.0	
2,761,574	100.0		2,743,896	100.0	

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y Gronfa:

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2022			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2023		
£'000	%		£'000	%	
454,098	16.4	Global Opportunities Fund PPC	430,059	15.6	
430,749	15.5	Global Growth Fund PPC	426,908	15.5	
353,857	12.7	Absolute Return Bond PPC	386,103	14.0	
346,072	12.5	Black Rock ACS World Low Carbon Fund	331,802	12.0	
239,314	8.6	Black Rock Aquila Life UK Equity Index Fund	246,433	8.9	
200,811	7.2	Black Rock Aquila Life Gl. Dev Fundamental Fund	207,927	7.5	
197,920	7.1	Multi Asset Credit Fund PCC	200,600	7.3	

NODYN I4c – BENTHYCA STOC

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Yr incwm a enillodd y Gronfa trwy fenthyca stoc oedd £109,916 (£126,800 yn 2021/22). Ar hyn o bryd, mae gan y Gronfa gyfanswm ecwiti a ddyfynnwyd o £40.6m ar fenthyg (£35.8m ar 31 Mawrth 2022). Mae'r ecwiti hyn yn parhau i gael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y Gronfa. Nid oes unrhyw rywmedigaethau'n gysylltiedig â'r asedau a fenthycwyd.

NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO

Mae'r holl asedau wedi'u prasio gan ddefnyddio technegau gwerthoedd teg yn seiliedig ar nodweddion pob offeryn, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad lle bo hynny'n bosibl. Ni fu unrhyw newid yn y technegau prasio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae asedau ac ymrwymadau wedi'u dosbarthu i dair lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

Lefel 1 - ble mae gwerthoedd teg wedi eu pennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rwymedigaethau cyfwerth, sy'n cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, bondiau wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned.

Lefel 2 - ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael, neu pan ddefnyddir technegau prasio i bennu gwerth teg yn seiliedig ar ddata gweladwy.

Lefel 3 - ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ddata gweladwy'r farchnad.

NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO (parhad)

Disgrifiad o'r Ased	Hierarchaeth brisio	Sail y prisiad	Mewnbynnau arsylladwy ac na ellir eu harsylwi	Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y Prisiadau a ddarperir
Arian a chyferthoedd arian	Lefel 1	Bernir bod gwerth i'w gario yn werth teg oherwydd natur tymor byr yr offerynnau ariannol hyn	Diangen	Diangen
Buddsoddiadau cyfun- cronfeydd ecwiti	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' (net asset value) ar sail gwerth yr asedau sylfaenol ar y farchnad	Porthiant prisiau wedi'i werthuso	Diangen
Buddsoddiadau cyfun- incwm sefydlog	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' ar sail gwerth marchnadol y gwarantau incwm sefydlog sylfaenol	Porthiant prisiau wedi'i werthuso	Diangen
Buddsoddiadau eiddo cyfun	Lefel 2	Pris cynnig cau pan gyhoeddir prisiau cynnig; pris sengl cau lle cyhoeddir pris sengl	Wedi'i seilio ar 'NAV' wedi'i osod ar sail blaen-brisio	Diangen
Ecwiti preifat	Lefel 3	Prisiad cymaradwy cwmnïau tebyg yn unol ag <i>International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines 2018</i> ac <i>IPEV Board's Special Valuation Guidance</i> (Mawrth 2020)	<ul style="list-style-type: none"> Lluosrif EBITDA Lluosrif referniw Gostyngiad am ddiffyg marchnadwyedd Rheoli premiwm 	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwylidig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiadau
Isadeiledd	Lefel 3	Wedi'i brisio gan ddefnyddio technegau llif arian disgowntiedig i gynhyrchu gwerth presennol net	Cyfradd ddisgownt a llif arian a ddefnyddir yn y modelau	Cyfradd chwyddiant, llog, treth a chyfnewid tramor

Sensitifrwydd asedau a werthir ar lefel 3

Mae'r gwerthoedd a adroddir yn y prisiadau Lefel 3 yn cynrychioli'r amcan gyfrif mwyaf cywir gwerthoedd y portffolio ar 31 Mawrth 2023. Mae unrhyw oddrychedd sy'n gysylltiedig â'r gwerth buddsoddi wedi'i ymgorffori yn y prisiad a gellir gweld y dadansoddiad sensitifrwydd yn Nodyn 17.

Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2

Ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2022/23.

NODYN I5a – HIERARCHAETH GWERTH TEG

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r SAARh ac US GAAP.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymadau ariannol fesul lefel o 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel â'u gwerth teg.

Gwerth ar 31 Mawrth 2023	Pris y farchnad a ddyfynnwyd	Gan ddefnyddio mewnbwn gweladwy	Heb fewnbwn gweladwy sylweddol	Cyfanswm £'000
	Lefel 1 £'000	Lefel 2 £'000	Lefel 3 £'000	
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Incwm sefydlog	0	586,703	0	586,703
Ecwiti	0	1,700,745	0	1,700,745
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	221,297	0	221,297
Ecwiti preifat	0	0	166,622	166,622
Isadeiledd	0	0	67,566	67,566
Adneuon arian parod	963	0	0	963
	963	2,508,745	234,188	2,743,896
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(960)	0	0	(960)
Cyfanswm	3	2,508,745	234,188	2,742,936

NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG (parhad)

Gwerth ar 31 Mawrth 2022	Pris y	Gan ddefnyddio		Heb fewnbwn	Cyfanswm
	farchnad a	mewnbwn gweladwy		gweladwy	
	ddyfynnwyd	Lefel 1	Lefel 2	sylweddol	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled					
Incwm sefydlog	0	551,777	0	551,777	
Ecwiti	0	1,730,845	0	1,730,845	
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	252,521	0	252,521	
Ecwiti preifat	0	0	158,711	158,711	
Isadeiledd	0	0	67,417	67,417	
Adneuron arian parod	303	0	0	303	
	303	2,535,143	226,128	2,761,574	
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled					
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(285)	0	0	(285)	
Cyfanswm	18	2,535,143	226,128	2,761,289	

NODYN 15b – CYSONIAD MESURIADAU GWERTH TEG O FEWN LEFEL 3

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2022	Trosglwyddiadau o Lefel 3	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn	Enillion/ (colledion) na wireddwyd	(Enillion)/ colledion a wireddwyd	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2023
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ecwiti preifat	158,711	0	14,620	(4,852)	6,675	(8,532)	166,622
Isadeiledd	67,417	0	10,920	(12,481)	11,085	(9,375)	67,566
Cyfanswm Lefel 3	226,128	0	25,540	(17,333)	17,760	(17,907)	234,188

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2021	Trosglwyddiadau o Lefel 3	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn	Enillion/ (colledion) na wireddwyd	(Enillion)/ colledion a wireddwyd	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2022
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ecwiti preifat	165,423	0	23,050	(22,550)	23,275	(30,487)	158,711
Isadeiledd	46,220	0	15,895	(3,488)	9,021	(231)	67,417
Cyfanswm Lefel 3	211,643	0	38,945	(26,038)	32,296	(30,718)	226,128

NODYN 16 – DOSBARTHIAD OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae polisiau cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddsbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Fel ar 31 Mawrth 2022			Fel ar 31 Mawrth 2023		
Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymadau ariannol	Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymadau ariannol
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol			Asedau ariannol		
2,282,622		Buddsoddiadau cyfun	2,287,448		Buddsoddiadau cyfun
252,521		Buddsoddiadau eiddo cyfun	221,297		Buddsoddiadau eiddo cyfun
158,711		Ecwiti preifat	166,622		Ecwiti preifat
67,417		Isadeiledd	67,566		Isadeiledd
	14,481	Arian parod		19,255	Arian parod
	3,650	Dyledwyr		4,163	Dyledwyr
2,761,271	18,131	0	2,742,933	23,418	0
		(3,641) Credydwyr			(4,222)
0	0	(3,641)	0	0	(4,222)
2,761,271	18,131	(3,641)	2,742,933	23,418	(4,222)

NODYN 16a – ENILLION A CHOLLEDION NET AR OFFERYNNAU ARIANNOL

31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2023
Gwerth teg		Gwerth teg
£'000		£'000
Asedau ariannol		
209,909	Gwerth teg drwy elw a cholled	(62,044)
0	Benthyciadau a derbyniadau	0
209,909	Cyfanswm yr asedau ariannol	(62,044)
Ymrwymadau ariannol		
0	Gwerth teg drwy elw a cholled	0
0	Cost ymrwymadau ariannol	0
0	Cyfanswm yr ymrwymadau ariannol	0
209,909	Asedau ariannol net	(62,044)

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Risg a rheoli risg

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiaidau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau i leihau risg y farchnad (risg pris, risg arian tramor a risg cyfradd llog) a risg credyd y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Sefydlir polisiau rheoli risg i nodi a dadansoddi'r risgiau sy'n wynebu gweithrediadau'r Gronfa Bensiwn, yna eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn gweithgaredd ac amodau'r farchnad.

a) Risg y farchnad

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliaidau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, gan sicrhau'r enillion buddsoddiad gorau posibl.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Gronfa a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol;
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

Risg prisiau eraill

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'rsawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau ac offerynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth buddsoddi'r Gronfa.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Cyngor wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn mewn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2021/22 a 2022/23.

Math o ased	Symudiad posib y farchnad (+/-)	
	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023
	%	%
Ecwiti DU	19.9	18.2
Ecwiti Byd-Eang	20.1	19.0
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	27.0	24.4
Ecwiti Preifat	31.2	31.2
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	2.8	2.7
Isadeiledd	14.6	16.0
Eiddo	15.0	15.5
Credyd Amrywiol	7.4	7.8
Arian	0.3	0.3
Cronfa Gyfan	14.3	13.3

Mae'r newid posibl a ddatgelir uchod yn gyson a un symudiad gwyrriad safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae cyfanswm newid posibl y gronfa yn ystyried y berthynas disgwyliedig rhwng y gwahanol ddsbarthiadau o asedau a ddangosir, yn seiliedig ar gyfnewidioldeb sylfaenol a chydberthynas yr asedau, yn unol a theori portffolio amrywiant cymedrig.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Pe byddai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhreis y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2023 £'000	Canran newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti DU	246,433	18.2	291,284	201,583
Ecwiti Byd-eang	1,396,696	19.0	1,662,068	1,131,324
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	57,616	24.4	71,674	43,557
Ecwiti Preifat*	166,622	31.2	218,608	114,636
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	386,103	2.7	396,528	375,679
Isadeiledd*	67,566	16.0	78,377	56,756
Eiddo	221,297	15.5	255,598	186,996
Credyd Amrywiol	200,600	7.8	216,246	184,953
Arian	19,255	0.3	19,313	19,197
Dyledwyr a Chredydwyr	(59)	0.0	(59)	(59)
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	2,762,129		3,209,637	2,314,622
*Agedau lefel 3	234,188		296,985	171,392

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2022 £'000	Canran newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti DU	239,314	19.9	286,937	191,690
Ecwiti Byd-eang	1,431,729	20.1	1,719,508	1,143,952
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	59,802	27.0	75,948	43,655
Ecwiti Preifat*	158,711	31.2	208,228	109,193
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	353,857	2.8	363,765	343,949
Isadeiledd*	67,417	14.6	77,260	57,574
Eiddo	252,521	15.0	290,399	214,643
Credyd Amrywiol	197,920	7.4	212,566	183,274
Arian	14,481	0.3	14,525	14,438
Dyledwyr a Chredydwyr	9	0.0	9	9
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	2,775,761		3,249,145	2,302,377
*Agedau lefel 3	226,128		285,488	166,767

Risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2023 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

Math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2022	Fel ar 31 Mawrth 2023
	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	14,178	18,292
Balansau arian parod	303	963
Cronfa Incwm Sefydlog	551,777	586,703
Cyfanswm	566,258	605,958

Dadansoddiad sensitifwydd risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2023	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	18,292	183	(183)
Balansau arian parod	963	10	(10)
Cronfa Incwm Sefydlog *	586,703	5,867	(5,867)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	605,958	6,060	(6,060)

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2022	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	14,178	142	(142)
Balansau arian parod	303	3	(3)
Cronfa Incwm Sefydlog *	551,777	5,518	(5,518)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	566,258	5,663	(5,663)

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

Mae'r effaith y byddai newid o 1% mewn cyfraddau llog yn cael ar y llog a dderbyniwyd yn fach iawn gan mai 2.04% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £210,338 am y flwyddyn (cyfartaledd y gyfradd llog o 0.1% a cyfanswm llog o £14,183 yn 2021/22).

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar asedau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nid yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

Risg arian tramor

Mae risg arian tramor yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£DU). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £DU.

Mae gan y Gronfa ymrwymadau ecwiti preifat ac isadeiledd mewn arian tramor (€393.2 miliwn a \$88.6 miliwn). Mae'r ymrwymadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 24. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymadau ers 2005 felly mae'r ymrwymadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Y gwyriad safonol disgwylidig l blwyddyn ar gyfer un arian tramor unigol ar 31 Mawrth 2023 yw 9.9%. Y gyfradd gyfatebol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 oedd 9.5%. Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl amrywiadau eraill, yn enwedig cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2023 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2023	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar leihad
	£'000	£'000	£'000
Ecwiti Byd-eang	1,396,696	1,534,969	1,258,423
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	57,616	63,320	51,912
Ecwiti Preifat	166,622	183,118	150,127
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	386,103	424,328	347,879
Isadeiledd	67,566	74,255	60,877
Credyd Amrywiol	200,600	220,459	180,740
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	2,275,203	2,500,449	2,049,958

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2022	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar leihad
	£'000	£'000	£'000
Ecwiti Byd-eang	1,431,729	1,567,744	1,295,716
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	59,802	65,483	54,120
Ecwiti Preifat	158,711	173,788	143,633
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	353,857	387,473	320,240
Isadeiledd	67,417	73,822	61,013
Credyd Amrywiol	197,920	216,722	179,118
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	2,269,436	2,485,032	2,053,840

b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i ryw fath o risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler isod meincnod ar gyfer y canran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

Rheolwr Buddsoddi	Canran o'r Portffolio
BlackRock	29.5%
Emerging Markets Partneriaeth Pensiwn Cymru	2.5%
Global Growth Partneriaeth Pensiwn Cymru	14.0%
Global Opportunities Partneriaeth Pensiwn Cymru	14.0%
Multi Asset Credit Partneriaeth Pensiwn Cymru	7.5%
Absolute Return Bond Partneriaeth Pensiwn Cymru	15.0%
Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock)	10.0%
Partners Group	7.5%

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil bolisiâu yswiriant amrywiol a ddelir i ymdrin â gwrth bartïon sy'n diffygdalu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuron arian parod, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc, nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor.

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuron y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddsbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiaid pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 25 mae dau gyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiaid eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraid yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 o Reoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 rhwng y prisiad a gynhelir teirblynyddol.

c) Risg hylifedd

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiaid i dalu pensiynwyr ac i fodloni ymrwymiaid buddsoddi.

Mae gan y Cyngor llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dro yn cael ei fuddsoddi gan y Cyngor yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp y Cyngor. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleusterhwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod mwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2023, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £455m, sy'n cynrychioli 16.4% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2022: £479m, a oedd yn cynrychioli 17.2% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl ymrwymadau ariannol ar 31 Mawrth 2023 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2022.

Risg ail ariannu

Y risg allweddol yw y bydd y Gronfa wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i hofferynnau ariannol pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Gronfa unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrasiad teirblynyddol er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prasiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2022.

Disgrifiad o'r Polisi Cyllido

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido yr Awdurdod Gweinyddu a gafodd ei adolygu fel rhan o brisiad 2022.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- cymryd golwg hirdymor doedd i sicrhau'r gofyniad rheoliadol ar gyfer hylifedd hirdymor, gyda digon o arian i dalu buddion i aelodau a'u dibynyddion
- defnyddio strategaeth fuddsoddi gytbwys i leihau cyfraniadau arian parod hirdymor gan gyflogwyr a chwrrd â'r gofyniad rheoliadol ar gyfer effeithlonrwydd cost hirdymor
- lle bo'n briodol, sicrhau cyfraddau cyfraniadau sefydlog gan gyflogwyr
- adlewyrchu nodweddion gwahanol gyflogwyr i osod eu cyfraddau cyfrannu, gan ddefnyddio strategaeth gyllido dryloyw
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg y bydd cyflogwr yn methu â chyflawni ei ymrwymadau pensiwn.

Amlinella'r Datganiad Strategaeth Cyllido sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwysu'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi i fod yn debygol iawn o gyflawni'r targed cyllido dros 17 mlynedd. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, fod yna o leiaf siawns o 70% y bydd y Gronfa yn cyrraedd lefel ariannu'n llawn dros y 17 mlynedd.

Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2022. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prisio'n £2,776 miliwn ar 31 Mawrth 2022, yn ddigon i dalu 120% o'r ymrwymadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y gwarged ym mhriiad 2022 oedd £468 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol â'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2026 eu pennu yn unol â pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

Prif Rhagdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prisio 2022.

Dull

Aseswyd yr ymrwymadau drwy ddefnyddio dull buddion cronodig sy'n ystyried aelodaeth bensynadwy hyd at y dyddiad prisio, ac yn ystyried cynnydd disgwylidig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwylidig cynharach o adael aelodaeth bensynadwy.

Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2022 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau Ariannol	31 Mawrth 2022
Cyfradd disgownt	4.1 y.f %
Cynnydd mewn cyflog	3.2 y.f %
Cynnydd mewn pensiwn	2.7 y.f %

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwylidig oes yn seiliedig ar *VitaCurves* y Gronfa gyda gwelliannau yn unol a model CMI 2021, gyda 0% o bwysau ar data 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a cyfradd hirdymor o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwylidig oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Rhagdybiaethau marwolaeth	Gwryw Blynyddoedd	Benyw Blynyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	21.1	24.0
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2022)	22.3	25.8

Mae copïau o adroddiad Prisiad 2022 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2022

Mae'r rhyfel parhaus yn yr Wcrain a phwysau chwyddiant yn parhau i amharu ar farchnadoedd, gan effeithio ar enillion buddsoddiadau a gyflawnwyd gan asedau'r Gronfa. Mae lefelau uchel o chwyddiant yn y DU (o gymharu a phrofiad diweddar) wedi arwain at gynydd uwch na'r disgwyl mewn budd-daliadau CPLIL o 10.1% ym mis Ebrill 2023. Er gwaethaf hyn, mae lefel ariannu'r Gronfa yn debygol yn fod yn uwch na'r hyn a adroddwyd ym Mhrisiad 31 Mawrth 2022 oherwydd cynnydd sylweddol mewn cyfraddau llog a leihaodd y gwerth a roddir ar ymrwymadau'r Gronfa.

Bydd y prisiad actiwaraidd nesaf yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2025. Bydd y Datganiad Strategaeth Cyllido hefyd yn cael ei adolygu bryd hynny.

NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido teirblynyddol, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaethau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 18) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau SCC19 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi priso buddion salwch a marwolaeth yn unol â SCC19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2022 ac 2023, fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau	31 Mawrth 2022 £m	31 Mawrth 2023 £m
Aelodau Gweithredol	1,929	1,084
Aelodau Gohiriedig	583	387
Pensiynwyr	818	864
Cyfanswm	3,330	2,335

NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI’U HADDO (parhad)

Fel y nodir uchod, mae’r ymrwymiadau uchod wedi’u cyfrifo’n seiliedig ar SCC19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau’r prisiad cyllido teirblynyddol a gynhaliwyd yn 2022 (gweler Nodyn 18) gan fod SCC19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy’n adlewyrchu cyfraddau’r farchnad.

Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn ac maent yn wahanol ar 31 Mawrth 2022 a 2023. Mae’r actiwari yn amcanu mai effaith y newid mewn tybiaethau i 31 Mawrth 2023 yw i leihau y gwerth presennol actiwaraidd o £1,422m. Amcanir mai effaith y newid mewn demograffiaeth a hirhoedledd ydi lleihau y gwerth presennol actiwaraidd o £55m.

Rhagdybiaeth	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023
	%	%
Cyfradd cynnydd mewn pensiwn	3.20	2.95
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	3.50	3.45
Cyfradd ddisgownt	2.70	4.75

Mae’r disgwyliad oes ar gyfer y dybiaeth hirhoedledd yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2021, gyda 10% o bwysau ar ddata 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae’r disgwyliad oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 wedi’u crynhoi isod:

	Gwryw	Benyw
	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	20.9	23.9
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2019)	21.9	25.6

Mae’r rhagdybiaethau demograffig eraill wedi ei diweddarau ers flwyddyn diwethaf ac yn unol a prisiad diweddaraf y gronfa.

Mae’r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau wedi’u nodi isod:

Sensitifrwydd i’r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy’n gorffen 31 Mawrth 2023	Amcan % y cynnydd mewn rhwymedigaethau	Amcan swm Ariannol £m
0.1% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant pensiwn	2	41
0.1% y.f. o gynnydd mewn cyflog	0	7
0.1% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	2	47
I mlynedd o gynnydd yn disgwyliad oes aelod	4	93

NODYN 20 – ASEDAU CYFREDOL

31 Mawrth 2022 £'000		31 Mawrth 2023 £'000
483	Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr	495
1,597	Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr	1,617
1,570	Amrywiol ddyledwyr	2,050
3,650	Cyfanswm dyledwyr	4,162
14,178	Arian	18,292
17,828	Cyfanswm	22,454

NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

31 Mawrth 2022 £'000		31 Mawrth 2023 £'000
1,697	Credydwyr amrywiol	2,078
1,659	Buddion sy'n daladwy	1,183
3,356	Cyfanswm	3,261

NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2022 £'000	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2023 £'000
Clerical Medical	4,670	4,576
Utmost Life	182	162
Standard Life	5	5
Cyfanswm	4,857	4,743

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r rheolwr yma fel a ganlyn:

	2021/22 £'000	2022/23 £'000
Clerical Medical	645	797
Cyfanswm	645	797

NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gryf rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,474,104 (£1,318,514 yn 2021/22) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r Gronfa a chyfrannodd £29.49m tuag at y Gronfa yn 2022/23 (£27.65m yn 2021/22). Ar ddiwedd y flwyddyn, £0.53m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa yn bennaf mewn perthynasâ llôg a dalwyd ar fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn a chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2023 a £1.47m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau i'r Cyngor am y costau gweinyddol.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2022/23, derbyniodd y Gronfa log o £210,338 (£14,183 yn 2021/22) gan Gyngor Gwynedd.

Llywodraethu

Roedd un aelod o'r Pwyllgor Pensiwnau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2022/23 (yr aelod pwyllgor J.B. Hughes). Yn ogystal, mae aelodau'r pwyllgor S.W. Churchman, R.W. Williams, J.B. Hughes, I. Thomas, G. Edwards, J.P. Roberts a R.M. Hughes yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2022/23 (yr aelodau bwrdd H. E. Jones a S.Warnes). Yn ogystal, mae aelodau Bwrdd B. Roberts, O. Richards, H. Trainor a S. E. Parry yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Prif Bersonél Rheoli

Cyfarwyddwr y Gronfa a Pennaeth Cyllid (s151) yw prif bersonél rheoli'r gronfa.

Mae'r cyflog sy'n daladwy i brif bersonél rheoli y gellir ei phriodoli i'r gronfa wedi'i nodi isod:

31/03/2022 £'000		31/03/2023 £'000
7	Buddion tymor byr	38
1	Buddion ôl-gyflogaeth	7
<hr/>		<hr/>
8		45

NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	Cyfanswm ymrwymadau	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2022	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2023
	€'000	€'000	€'000
P.G. Direct 2006	19,224	0	0
P.G. Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
P.G. Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
P.G. Global Value 2011	15,000	2,096	2,096
P.G. Global Infrastructure 2012	40,000	7,019	7,019
P.G. Direct 2012	12,000	1,181	1,181
P.G. Global Value 2014	12,000	1,531	1,531
P.G. Direct Equity 2016	50,000	2,826	2,826
P.G. Global Value 2017	42,000	17,870	11,570
P.G. Global Infrastructure 2018	28,000	14,379	8,131
P.G. Direct Equity 2019	48,000	18,432	8,352
P.G. Direct Infrastructure 2020	32,000	24,800	20,320
P.G. Direct Equity V	30,000	0	30,000
Cyfanswm Ewro	393,224	95,571	98,463
	\$'000	\$'000	\$'000
P.G. Emerging Markets 2011	7,000	1,082	1,082
P.G. Secondary 2015	38,000	15,740	15,220
P.G. Direct Infrastructure 2015	43,600	9,598	7,640
Cyfanswm Doleri	88,600	26,420	23,942

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Partners Group, y rheolwr buddsoddi sy'n buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac isadeiledd) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad dros nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

NODYN 25 - ASED AU DIBYNNOL

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y Gronfa ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn methu talu.

NODYN 26 - YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ni nodwyd unrhyw ymrwymadau dibynnol.

NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

Nid oes unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd sy'n gweithredu fel awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys cyfrif y gronfa, datganiad o'r asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodiadau ariannol y gronfa bensiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, ac o swm a threfniadaeth ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y gronfa bensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r adroddiad blynyddol yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cronfa Bensiwn Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhim â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y datganiadau ariannol, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu y Gronfa Bensiwn Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan [enw'r gronfa bensiwn] yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Gwynedd sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn rheolwyr yn diystyru rheolaethau.
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Gwynedd .
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Penisynau ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddylyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i

unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Tachwedd 2023

I Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ